



Annwyl Gwsmer

Ailagor Gwasanaeth

Swyddfa Bost Dociau Bute  
110 Stryd Bute, Caerdydd, CF10 5AD

Yn dilyn cau'r Swyddfa Bost uchod dros dro ym mis Medi 2022, rydym wrth ein bodd yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post i'r gymuned yn Nociâu Bute.

Ail agorodd y Swyddfa Bost ddydd Mawrth 1 Tachwedd 2022 ac mae'n cael ei rhedeg o'r un adeilad uchod.

Bydd y gangen yn dal i gynnig dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post, a bydd ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener 09:00 – 17:00, a dydd Sadwrn 09:00 – 12:00.

Mae manylion llawn am y gwasanaeth newydd ar ddiwedd y llythyr hwn. Hefyd, caiff posteri eu gosod yn y gangen fel bod cwsmeriaid yn gwybod am y newid.

Gwn y bydd y gymuned leol yn ymuno â mi yn croesawu'r newyddion da a gobeithio y byddwch chi a'n cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, mae croeso ichi rannu'r wybodaeth hon â'r bobl hynny yn eich sefydliad sydd â diddordeb gweithredol yn y mater penodol hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth newydd, byddwch cystal â chysylltu â'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn unol a'r manylion isod. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch i chi am eich cymorth i adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Yr eiddoch yn gywir

*Katimay John*

**Katimay John**  
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:

[comments@postoffice.co.uk](mailto:comments@postoffice.co.uk)

[postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

FREEPOST Your Comments

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.

Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.

Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.

Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.

Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.

Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig | Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

[postoffice.co.uk](http://postoffice.co.uk)

I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).

Manylion am y gwasanaeth Swyddfa Bost newydd yn Nociau Bute:

**Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhai canghennau'n gorfod newid eu horiau agor.**

**Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar gael ar ein gwefan yn [www.postoffice.co.uk/branch-finder](http://www.postoffice.co.uk/branch-finder)**

---

Swyddfa Bost Dociau Bute  
110 Stryd Bute  
Caerdydd  
CF10 5AD

**Gwasanaethau**

Bydd dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd, gan gynnwys dewis eang o Arian Teithio a Threth Cerbyd.

**Oriau agor**

Llun – Gwener	09:00 – 17:00
Dydd Sadwrn	09:00 – 12:00
Dydd Sul	Ar gau

**Mynediad**

Mae gan y gangen hon fynediad gwastad a drws llydan wrth y fynedfa.

Y tu mewn, mae yna ddolen glyw a lle i gadair olwyn.

**Cyrraedd yno**

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post newydd hwn yn yr un adeilad Swyddfa'r Post yn Stryd Bute yng Nghaerdydd.

Mae parcio Talu ac Arddangos ar gael y tu allan i'r gangen ac ar hyd Stryd Bute.

---

## Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau dros dro<sup>1</sup>/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw weithredu ynghylch y cwyn).

**Postofficeviews.co.uk**

**Comments@postoffice.co.uk**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup> Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen a gaewyd dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cyngorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Lleol Gogledd Iwerddon. Anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.